

# DOLEN Y TAB – 27

## 23–24 Hydref 2020

### \*\*OEDFA BORE SUL 25 HYDREF\*\*

Y Parchg. Gethin Rhys fydd yn cyflwyno'r Myfyrdod yn ein hoedfa fore Sul, a cheir cyfraniadau gan Eleri Jones, Lowri Roberts, Margaret White ac Eleri Huws. Gobeithio y medrwch chi ymuno â nhw.

### OEDFAON MIS TACHWEDD

1 Yng nghwmni rhai o aelodau Ton-teg a Phentre'r Eglwys.

8 Sul Heddwch.

15 Oedfa i'r Teulu gyda Heulyn, Catrin a rhai o'r Twmiaid.

22 Emlyn Davies.

29 Y Parchg. Gethin Rhys.

*Cofiwch hefyd y Sul yma am . . .*

#### 11.00 S4C

**Oedfa Dechrau Canu Dechrau Canmol**  
*Yn arwain yr oedfa ddiolchgarwch bydd y Parchg. Anna Jane Evans.*

#### 12.00 Oedfa Radio Cymru

*Yng ngofal y Parchg. Jill-Hailey Harries, Abertawe.*

**12.30 Radio Cymru Bwrw Golwg** gyda John Roberts.

**E-fwletin Cristnogaeth21** newydd i'w weld bob bore Sul [www.cristnogaeth21.cymru](http://www.cristnogaeth21.cymru).

### BWRDD Y CYFARWYDDWYR

Cynhelir cyfarfod nesaf y Bwrdd  
Nos Fawrth 3 Tachwedd.

Os oes unrhyw fater yr hoffech ei godi, yna rhowch wybod i'r Ysgrifennydd, Gwilym Huws  
([gehpengwern@yahoo.co.uk](mailto:gehpengwern@yahoo.co.uk) / 01443 225205 / 07710 237327) erbyn nos Sul 1 Tachwedd fan bellaf.

### CAPEL Y TABERNAACL CYF. ENWEBU CYFARWYDDWYR NEWYDD

Mae angen enwebu o leiaf **PEDWAR** Cyfarwyddwr/Ymddiriedolwr newydd i'r Bwrdd gan fod tymor 4 o'r aelodau yn dod i ben yn dilyn y Cyfarfod Cyffredinol Blynnyddol fore Sul 29 Tachwedd.

Dosbarthwyd copïau o'r ffurflen enwebu ar e-bost yn gynharach yr wythnos hon. I'r rhai hynny ohonoch sydd heb gyfrif e-bost, mae croeso i chi gysylltu â'r Ysgrifennydd i ofyn am ffurflen.

Dyddiad Cau:

**Dydd Llun 16 Tachwedd 2020**

### TALEBAU NADOLIG

Unwaith eto, mae'n amser dechrau meddwl am helpu pobol ifanc sy'n gadael gofal, er mwyn helpu i ddod ag ychydig o ysbryd y Nadolig i'w bywydau. Mae'r pandemig yn gwneud eu hamgylchiadau'n anoddach nag erioed, a byddwn yn aros am arweiniad gan eu gweithwyr cymdeithasol gyda golwg ar gasglu dillad a nwyddau addas yn ogystal.

Yn y cyfamser, bydd casgliad ariannol yn weithredol tan ddiwedd mis Tachwedd, gyda golwg ar gyflwyno'r talebau Nadolig i gymaint ag y medrwn ni.

Dyma'r manylion ar gyfer cyfrannu:

**Anfon siec** yn daladwy i Capel y Tabernacl Cyf at: Mr Arwyn Lloyd Jones, Tŷ Newydd, 39 Parc Bryn Derwen, Llanharan, Pontyclun CF72 9TU gyda nodyn yn cynnwys eich enw a 'Talebau Nadolig'.

#### Trosglwyddiad banc:

Cod didoli 30-96-72  
Rhif cyfrif 03607499  
gan gynnwys eich enw a nodi 'Talebau Nadolig'

**DIOLCH YN FAWR IAWN I CHI AM EICH  
HAELIONI DROS Y MISOEDD DIWETHAF**

Y Gweithgor Cyfiawnder Cymdeithasol

### CYFARFOD CYFFREDINOL BLYNYDDOL

#### Bore Sul 29 Tachwedd

Cynhelir y cyfarfod ar-lein

**Cyhoeddir rhagor o fanylion ynghylch sut i ymuno  
â'r cyfarfod yn nes at y dyddiad.**

# TACLO'R COFID:

## Profiadau Eglwysi Dwyrain Morgannwg

*Yn y cyfarfod rhithiol o Bwyllgor Gwaith Cyfundeb Dwyrain Morgannwg nos Fercher 14 Hydref, gwahoddwyd cynrychiolwyr yr eglwysi i adrodd sut yr aed ati i ymdopi dros gyfnod y clo mawr, a hefyd – o ganol mis Gorffennaf ymlaen – sut a phryd y dychwelodd y mwyafrif i gynnal oedfaon yn eu capeli unwaith yn rhagor. Prif ddiben codi'r mater oedd rhannu 'arferion da' y gallai eraill ystyried eu mabwysiadu, a gweld hefyd a oedd modd cynnig cefnogaeth i'r eglwysi llai eu maint a'u hadnoddau o fewn y Cyfundeb i'w galluogi i oroesi'r pandemig.*

O wrando ar yr wyth cyflwyniad, siomwyd pawb ar yr ochr orau gyda brwdfrydedd y cyfranwyr wrth adrodd am eu hymateb i COFID-19, a chawsom ein rhyfeddu gyda pha mor egniol a dyfeisgar fu'r eglwysi wrth wynebu'r her fwyaf iddynt ei phrofi ers cenedlaethau. Mwy rhyfeddol fyth, efallai, oedd dysgu am yr amrywiaeth helaeth o 'lwyfannau' amgen a fabwysiadwyd gan yr eglwysi i gyflwyno neges yr Efengyl ac i gynnal fflam y ffydd. Dros nos, bron, daeth enwau megis *Facebook*, *YouTube* a *Zoom* yn rhan o eirfa bob dydd gweinidogion, swyddogion, diaconiaid ac ymddiriedolwyr yr eglwysi; yna, ymhen ychydig wythnosau'n unig, roedd nifer yn ddigon hyderus i fynegi barn ynglŷn â pha 'lwyfan' fyddai'r mwyaf effeithiol at wahanol ddibenion.

### Oedfaon Rhithiol

Ymhlith y gweithgareddau niferus a grybwyllwyd ganddynt, roedd yn galonogol deall bod pob un o'r eglwysi hyn wedi llwyddo i gyflwyno oedfaon digidol yn rheolaidd dros gyfnod y clo. Roedd rhai wedi sefydlu sianel *YouTube* i ddarlledu oedfaon fideo, ac un yn cynnig cyfle i'w haelodau gymdeithasu dros *Zoom* yn syth wedi'r oedfa. Manteisiodd eraill ar *Zoom* i gynnal cyrddau gweddi ac astudiaethau Beiblaidd yn ystod yr wythnos. I raddau helaeth, roedd natur y gweithgareddau yn adlewyrchu adnoddau, arbenigedd ac ethos yr achosion unigol, nifer a demograffeg eu cynulleidfa, ynghyd â maint a hygyrchedd yr adeiladau. Er bod mwyafrif yr eglwysi hyn bellach wedi dychwelyd i'w capeli dros yr wythnosau diwethaf (h.y. cyn i Lywodraeth Cymru gyhoeddi'r clo byr a ddaw i rym heddiw, sef 23 Hydref), mae nifer dda ohonynt hefyd wedi gofalu bod yr aelodau hynny sy'n methu eu mynychu yn parhau i dderbyn recordiad neu fersiwn digidol o'r oedfaon fel bod modd iddynt flasu peth o'r profiad o gyd-addoli.

### Ystadegau

I'r rhai hynny ohonom sy'n ymddiddori mewn ystadegau, roedd yn agoriad llygad i ddysgu bod sawl eglwys wedi denu cryn dipyn yn fwy o 'wrandawyr/gwylwyr' i'w hoedfaon rhithiol nag i'r cyrddau yn y capel cyn y pandemig. Er enghraifft, yma yn y Tabernacl, mae'r 'gynulleidfa' i'r oedfaon dros y saith mis diwethaf wedi bod yn gysurus dros gant bron yn ddieithriad. Ar y llaw arall, roedd hyd yn oed un o gapeli cryfaf a mwyaf ei faint yng Nghaerdydd wedi ei gyfyngu i groesawu llai na 50 i fynychu'r oedfaon yn y capel dan amodau Llywodraeth Cymru.

### Gofal Bugeiliol

Calonidid oedd clywed bod pob un o'r eglwysi wedi manteisio ar eu rhwydwaith bugeilio arferol i gefnogi'r rhai oedd yn gaeth i'w cartrefi, a bod nifer hefyd wedi cadw mewn cysylltiad â'u haelodau dros y cyfnod trwy lunio a dosbarthu taflenni, myfyrdodau neu gylchlythrau'n wythnosol drwy gyfrwng e-bost, gweplyfr a'r post cyffredin i'r aelodau oedd heb gyswllt i'r we.

### Ysgolion Sul

Hyfryd oedd clywed bod sawl un o'r eglwysi wedi llwyddo i gynnal Ysgol Sul yn llwyddiannus iawn trwy'r cyfnod dros lwyfan *Zoom*, a bod eglwysi eraill wedi defnyddio'r un cyfrwng i gynnal pwyllgorau ac i 'gwrdd' yn gymdeithasol. Diddorol hefyd oedd penderfyniad un eglwys i gynnal gweithgarwch i'w pobl ifanc mewn adeilad oedd yn fwy pwrpasol na'r capel.

### Hyblygrwydd

Penderfynodd eglwys arall ddychwelyd i'w hen gapel wedi i hwnnw gau ei ddrysau am y tro olaf fisoedd lawer cyn y pandemig, ond gwelwyd ei fanteision gan fod mwy o ofod ynddo i gynnal oedfaon yn ddiogel nag yn y ganolfan gymunedol oedd yn gartref newydd i'r achos.

Prif werth y cyflwyniadau hyn, yn ddi-os, oedd iddynt arddangos hyblygrwydd pob un o'r eglwysi dros y cyfnod clo, a hefyd ar ôl llacio rhywfaint ar y cyfyngiadau. Mae lle felly i fod yn obeithiol y byddant yn parhau i gynnig rhai o'u gweithgareddau'n rhithiol, a hynny ochr-yn-ochr â'u digwyddiadau 'byw' wedi i'r haint gilio o'r tir, ac yn arwydd pwerus bod ein heglwysi ar agor led y pen **i bawb** ac nid i garfan 'etholedig' yn unig.

---

*Cylchlythyr wythnosol yw **Dolen y Tab** a sefydlwyd yn ystod y cyfnod clo i ledaenu newyddion teuluol, cyhoeddiadau neu ddiolchiadau i aelodau'r Tabernacl trwy gyfrwng e-bost, Facebook a gwefan y capel [www.tabernacl.org](http://www.tabernacl.org).*

*Anfonwch unrhyw newyddion sydd gennych i'w rhannu erbyn nos lau yn wythnosol at: [gehpengwern@yahoo.co.uk](mailto:gehpengwern@yahoo.co.uk) / 07710 237327 / 01443 225205*